**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Oliemata O'Donoghue
Drwy e-bost - political.engagement@hsbc.com

8/11/2023

Annwyl Oliemata,

**Llinell gyswllt ffôn Gymraeg**

Rwyf newydd dderbyn llythyr gennych yn nodi eich bwriad i ddod a'r llinell gymorth Gymraeg i ben ar y 15 o Ionawr 2024. Mae'n hynod siomedig eich bod wedi dod i'r penderfyniad yma, a'ch bod wedi dod i'r penderfyniad heb ymgynghori gyda fy swyddogion na'u hysbysu o flaen llaw.

Mae eich cynnig o alwad yn ôl o fewn tri diwrnod gwaith yn y Gymraeg yn golygu eich bod yn darparu gwasanaeth israddol i siaradwyr Cymraeg, ac fel y gwyddoch mae'r iaith Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru.

Rydych yn nodi mai nifer isel o alwadau sydd yn cael eu derbyn i'r rhif Cymraeg ond, er i ni gynnig cyngor a'ch annog i'w hyrwyddo'n well nid oes unrhyw dystiolaeth fod hynny wedi digwydd

Hoffwn drefnu cyfarfod brys gyda chi i drafod y sefyllfa bresennol ac i drafod unrhyw opsiynau pellach, cyn i'r gwasanaeth pwysig hwn ddirwyn i ben. Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallech gynnig dyddiadau ac amseroedd posib?

Yn gywir,

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales